

Adroddiad Blynyddol Cynghorwyr CBSP

Y Cynghorydd A R Berrow

Ward: Bryntirion,
Trelales, Merthyr Mawr a
Broadlands

Plaid: Annibynnol

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben yn **2025**. Mae'n cael ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barn y Cynghorydd ac nid ydyw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr..

Y Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli **Trelales, Merthyr Mawr, Bryntirion a Broadlands** ar 6 Mai 2022.

Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau o fewn y Cyngor gan gynnwys cadw fy mhenodiadau i sawl pwyllgor. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y pwyllgorau yr wyf arnynt drwy ddilyn y ddolen hon: <https://democratic.bridgend.gov.uk>. Rwyf wedi mynychu dros 30 o gyfarfodydd pwyllgor ffurfiol y cyngor ar-lein a/neu wyneb yn wyneb. Rwyf wedi mynychu 4 cyfarfod safle ar gyfer Rheoli Datblygu. Rwyf wedi mynychu 3 chyfarfod fel aelod o is-bwyllgor bach ynghylch cyfleusterau hamdden awyr agored.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu dros 19 o sesiynau hyfforddi a sesiwn friffio, sydd wedi fy helpu i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward. Rwyf wedi parhau i ymgymryd â modiwlau hyfforddi ar-lein pan fyddant ar gael.

Rwyf hefyd wedi mynychu nifer o gyfarfodydd amser cinio a gynhaliwyd gan sefydliadau allanol fel Age Concern, y Groes Goch, cymorth Dementia, Gofalwyr ac ati sydd wedi bod yn addysgiadol iawn. Rwy'n ymgymryd ag ymweliad rota misol o gyfleusterau gofal gyda chydweithiwr.

Rwyf wedi codi dros 60 o faterion yn ffurfiol drwy'r system atgyfeirio gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill sy'n deillio o etholwyr lleol a materion yr wyf wedi'u nodi. Mae hyn yn cynnwys tyllau yn y ffyrdd, coed, palmentydd, marciau ffordd, parcio ac ati. Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys digartrefedd.

Rwy'n aelod etholedig o Gyngor Cymuned Trelales gan fynychu 10 cyfarfod ac wedi mynychu 12 cyfarfod ar y cyd ag aelodau a swyddogion y ddau gyngor.

Rwy'n Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gynradd Trelales yn mynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen ac wedi mynychu 3 sesiwn hyfforddi ar-lein i gefnogi'r rôl hon.

Gweithgareddau Etholaethol

Mae Cyngor Cymuned Trelales yn rheoli dau adeilad cymunedol. Ym Mryntirion rydym yn cynnal Pantri yr wyf yn ymwneud yn fawr ag ef. Mae wedi dod yn hyb cynnes yn ddiweddar hefyd ac rwy'n mynychu pryd bynnag y bo modd. Rydym yn gwahodd sefydliadau allanol i fynychu'r pantri gan gynnwys yr heddlu, cymdeithas gofalwyr, Dŵr Cymru, banciau, V2C, Hafod ac ati i gynnig cymorth i'n defnyddwyr.

Mae amrywiaeth o sefydliadau'n defnyddio'r ddau adeilad ac rwy'n cyfarfod â'r rhain a'r defnyddwyr yn rheolaidd. Rwyf wedi mynychu cyfarfodydd am y cae chwarae ym Mryntirion a'r holl feysydd chwarae yn yr etholaeth. Mae'r gwaith hwn yn barhaus. Mae LCC wedi cwblhau nifer o brosiectau eleni gan gynnwys gwell darpariaeth ar gyfer meinciau, biniau sbwriel ychwanegol a phlanwyr blodau yn y gymuned.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwy'n rhan o'r pwyllgor lleol sy'n trefnu'r Diwrnod Hwyl a gynhelir yn Broadlands bob blwyddyn ar gyfer y gymuned. Rwyf hefyd yn ymwneud â'r Arddangosfa Tân Gwyllt flynyddol ym Mryntirion. Rwy'n eistedd ar Ymddiriedolaeth Blandy yn Nhrelales. Rwy'n cefnogi holl swyddogaethau'r gymuned leol os ydw i'n rhydd i wneud hynny.

Gweithgareddau/Materion Eraill

Rwy'n aelod gweithgar o sawl sefydliad elusennol lleol y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio o fewn y gymuned rwy'n ei chynrychioli. Eleni mae hyn wedi golygu codi arian ar gyfer Ysgol Y Bont a Heronston. Mae gennym hefyd nifer o brosiectau addysgol, chwaraeon a garddio o fewn ysgol leol. Rydym yn gweithio'n galed i godi arian a'i wario'n lleol yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Rydym hefyd wedi dechrau prosiect yn Y Bwthyn Newydd yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr.

Y Cynghorydd A R Berrow

Dyddiad: 09 Mehefin 2025